## GEMAU OLYMPAIDD AR GYFER POBL IFANC: GEMAU'R HAF

Nanjing, China
Awst 16-28, 2014

## GEMAU OLYMPAIDD AR GYFER POBL IFANC: GEMAU'R GAEAF

Lillehammer, Norwy
Chwefror 26 - Mawrth 6, 2016



Y Gemau uchod fydd yr ail gyfres o Gemau Olympaidd ar gyfer Pobl Ifanc rhwng 14 ac 18 oed. Cynhaliwyd y Gemau Haf cyntaf yn Singapore yn 2010 a daeth tua 3,600 o athletwyr o dros y byd i gystadlu mewn 26 o gampau gwahanol. Cynhaliwyd y Gemau Gaeaf cyntaf yn Innsbruck a Seefeld, Awstria, yn 2012 a daeth dros fil o athletwyr i gymryd rhan.

Cyflwynwyd y syniad o gynnal Gemau Olympaidd ar gyfer Pobl Ifanc yn wreiddiol gan Jacques Rogge, llywydd y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (*International Olympic Committee* neu'r *IOC*), yn 2001. Yna, ar 5 Gorffennaf, 2007, penderfynodd y pwyllgor y byddai cynnal Gemau Olympaidd ar gyfer Pobl Ifanc yn syniad da.

Bellach, mae Gemau'r Haf a Gemau'r Gaeaf yn cael eu cynnal bob pedair blynedd, yn union fel y Gemau Olympaidd eraill. Mae'r Gemau hyn yn dilyn patrwm y Gemau Olympaidd eraill hefyd. Mae fflam yn cael ei chynnau a'i chario o gwmpas y wlad. Mae seremoni agoriadol a seremoni gau drawiadol ac, wrth gwrs, mae llawer o gystadlaethau chwaraeon o'r radd flaenaf yn cael eu cynnal.

Bwriad y Gemau hyn yw ysbrydoli pobl ifanc ar draws y byd i gymryd rhan mewn chwaraeon ac i fyw yn ôl gwerthoedd y Mudiad Olympaidd, sef Rhagoriaeth (gwneud eich gorau bob amser), Parch (parchu'ch hun a phobl eraill) a Chyfeillgarwch (annog cyfeillgarwch rhwng pobl ym mhob man ac o bob man).

Cystadlaethau chwaraeon sy'n cael y prif ffocws, wrth gwrs, ond yn ogystal, mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag addysg a diwylliant yn cael eu cynnal er mwyn ceisio annog pobl ifanc i fyw bywyd iach a llawn. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau dawns, cerddoriaeth a chelf ac ymweliadau gan rai o athletwyr gorau'r byd.

Defnyddiwch y cysylltiadau ar waelod y sgrin i gael mwy o wybodaeth.